# Y DINESYDD

**Ionawr/Chwefror 1981** RHIF 74

# YMDDWYN BYGYTHIOL

Y dyddiad yw Rhagfyr 11. Mae'r stori'n dechrau ym mar y Gloch Las yn yr Heol Fawr. Mae'r ystafell yn llawn o brotestwyr a phobol leol. Ond nid nepell o'r peiriant sigarennau, eistedd dau ddyn sy'n ceisio eu gorau glas i weddu i'r awyrgylch. Dau aelod o'r Heddlu Cudd ydynt, actorion rhwystredig na chawsant gyfle i ymuno â chwmni theatr. Eisioes mae rhai wedi nabod eu hwynebau. Erbyn hyn, mae eu presenoldeb mor gynnil ag eiddo King Kong. Yn sydyn, mae'r rhan fwyaf o'r Gweriniaethwyr yn ymadael. Erys ychydig o oedwyr mwy oedrannus i archebu peint arall. Mae'r ddau 'anweledig' yn cerdded allan yn Oscaraidd i'r gwyll gaeafol.

Cyrraedd tu fas i Neuadd y Ddinas a'r tyndra'n codi. Y golau llachar yn ein hanner-ddallu. Beth yw ei bwrpas? Helpu'r 'heddlu' i ddod o hyd i 'droseddwyr'? Rhywun yn dweud fod Woodcock wedi benthyg llifolau o Barc Ninian oherwydd cwtogi ariannol. Wrth edrych ar y môr o lesni, gellid meddwl fod yr 'heddlu' yn delio â haid afreolus o hwliganiaid pêldroed. Ond nid oes gennym gadwyni na chyllyll, dim ond rhegfeydd a gwawd - gwawd cyfiawn.

Mae heddwas gosgeiddig, talsyth yn cwympo'n sydyn i mewn i Ffynnon Carlo. Bedydd byrfyfyr. Mae'n dringo mas a'i ego cyn lleied â pharch y dorf at Thatcher. Nid yw'n gwerthfawrogi cymeradwyaeth ei gynulleidfa. Y tro nesa, bydd gwisg nofio tanddŵr yn fwy addas. Mae'n rhyfedd fel mae hiwmor 'heddwas' yn diflannu pan chwerthinir am ei ben.

Y rhengoedd glas yn arllwys o gyfeiriad yr Orsaf 'Heddlu' fel llanw diddiwedd. "Cerwch i ddal y 'Ripper'...Os torriff rhywun i mewn i'r tŷ heno, bydd 'na uffern o le..." Ond nid yw ffraethineb gwŷr y Cymoedd yn goglais y gleision. Eu hwynebau hwy'n ddiymateb - mor fywiog â walydd y Castell.

Yn sydyn, mae clamp o gar yn stopio tu fas i borth y neuadd. Blaen y dorf yn aflonyddu. Ychydig o 'flares' yn cael eu taflu o'r tu ôl. Yna'r 'heddlu' yn clirio llecyn yn ddi-rybudd ac yn eu dull proffesiynol, dihafal h.y. drwy ddemshgil ar ddwylo merched, er enghraifft. Mae'r olygfa yn troi stumog dyn - grym 'disgybledig' yn ymddwyn felly ac yn peri inni golli ffydd ynddynt. Rwyn teimlo fel taro yn ôl. Nid gwarcheidwaid heddwch yw'r rhain ond anifeiliaid. Gan nad oes ganddynt syniad pwy a daflodd y 'flares' mae'r 'heddlu' yn arestio ychydig o bobl ar antur. Enghraifft arall o gyfiawnder Prydeinig yn cael ei weithredu. (Gyda llaw, ar y radio yn ddiweddarach fe glywn fod Woodcock, fel Prif Gwnstabl De Cymru, wedi trefnu i fwy na 1000 o blismyn ddelio â rhyw 500 o brotestwyr. Tybed a oedd yn gorymateb? Rwyn siwr i Mr.Woodcock gael ei benodi oherwydd ei amryfal ansoddau gan gynnwys ei ddawn i fod yn bwyllog mewn argyfwng. Ond beth wnâi Mr. Digyffro pe bai Streic Gyffredinol neu derfysg yn Ne Cymru - dileu 'leave' holl heddlu Prydain?)

Mae tri 'heddwas' yn llusgo protestiwr ymaith ac yntau'n gweiddi, "Beth yw gwerth heddwas? Faint o ddarnau o arian?" Nid wyf wedi clywed sylw mor fachog mewn sefyllfa mor straenllyd. Testun gwers yn yr Ysgol Sul?!

Edrychaf ar ffenestri Neuadd y Ddinas. Tu ôl iddynt mae Thatcher a'r C.B.I. yn pesgi'n fras yng nghynhesrwydd y gwresogi canolog. Byddai gwresogi datganolog yn wrthun iddi hi. Tu allan mae'r gegin gawl. Mae rhesymeg ei hymweliad yn amlwg. Dewiswch ardal lle mae diweithdra'n uchel. Ac yna bwytewch ginio a gadewch i'r trethdalwr dalu amdano. Dyna'r ffordd ddelfrydol o ennyn croeso cynnes y bobl. Trueni na all deimlo gwres y 'flares'. Wrth weld y rhengoedd glasyn tynhau eu gafael ar y dorf, dywed Monwysyn wrthyf "Dan ni'n byw mewn 'Police State', wsti". Amneidiaf. Mae'r olygfa o'n blaen yn awgrymu efallai ein bod yn agosáu at y dibyn democrataidd. A beth am i'r academwyr gyflawni gweithred symbolaidd sef dileu'r gair 'heddlu' o'r iaith am byth.

CYNHYRFWR.

---

SUT I GAEL POTEL O CHWISGI

SŴN Y MÔR AM DDIM

Mae'n bleser gan drefnwyr gweithgareddau Cymraeg Theatr y Sherman gyhoeddi cystadleuaeth newydd sbon.

Ar y poster sy'n dwyn cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau, fe bortreadir nifer o Gymry adnabyddus a llai adnabyddus Caerdydd. Os fedrwch chi adnabod yr holl enwogion ar y poster, gallwch gystadlu.

Y wobr gyntaf fydd potel o chwisgi Cymreig Sŵn y Môr, sydd wedi ei chyfrannu gan y Distyllwyr ('distillers').

Y cwbl sydd raid i chi ei wneud yw anfon rhestr o enwau'r bobl, sydd, yn eich barn chi, yn cael eu darlunio ar y poster ata i yn Yr Academi Gymreig, Llawr 4, Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd. CF1 6QP.

Bydd pob ateb cywir (cynllunydd y poster - Cen Williams - yw'r unig un cymwys i farnu cywirdeb yr atebion) yn cael ei roi mewn het; yr enw cyntaf i gael ei dynnu o'r het fydd yn ennill y chwisgi.

Os digwydd i'r enillydd fod yn llwyr ymwrthodwr/ymwrthodwraig, bydd yn derbyn gwerth y botel mewn arian.

Anfonwch ar fyrder. Dyddiad cau 28 Chwefror, 1981.

Ann Beynon.

# Golygyddol

Wrth gyfeirio at y brotest yn erbyn Thatcher ar Ragfyr 11, mae Gwyneth Thomas yn gofyn "Ble oedd Cymry Caerdydd?" Fe geisiaf ateb ei chwestiwn. Roedd ychydig ohonynt yn llenwi eu boliau'n hunanfodlon tu fewn i'r Neuadd a rhai yn datgan eu hanfodlonrwydd tu fas.

Ond beth am y lleill? Gadewch inni ystyried un ohonynt. Ei enw yw D.O. Ffigur damcaniaethol ydyw ond mae'n enghraifft dda o'r teip hwnnw a elwir 'Cyncoed Man'. O ran ymwybyddiaeth wleidyddol mae'n perthyn efallai i 'Neanderthol Man'.

Y capel yw ei fyd. Ym mhlygion ei gof mae 'na gofnod niwlog am y Methodistiaid Calfinaidd yn gwahardd undebwyr llafur rhag ymuno a'u rhengoedd. Digwyddodd hyn yn Nhredegyr ym 1832. Felly y dylai fod ym 1981.

Pan oedd yn ifanc, fe ddioddefodd byliau o brotestio ond fe drechodd yr afiechyd hwn yn fuan. Erbyn heddiw cred nad oes angen creu 'helynt'. Mae e'n haeddu 'llonydd' a phwysleisia nad yw'r gair hwn yn gyfystyr a difaterwch. Wedi'r cwbwl, fe chwysodd ddigon wrth ddringo ysgol y Swyddfa Drefedigaethol (yng Nghymru) a chreu pentwr o gyfoeth ar sail (neu ar draul) yr iaith Gymraeg. Wedi'r yrfa gysurus hon, mae'n well ganddo athronyddu uwchben ei goffi a'i fisgedi.

Yn y maes diwylliannol fe'i ystyrir yn un o'r hoelion wyth. Mae'n uchel ei gloch mewn pwyllgor, yn llythyrwr cyson i'r 'Faner', ac yn dipyn o gynganeddwr. Ond yn y maes gleidyddol mae'n ddiffrwyth. Nerth chwannen sydd ganddo. Mae'n edmygu dyn cyflawn y Dadeni ond, yn y bôn, cysgod gwantan o'i arwr ydyw.

Tra oedd yn areithio ar y teledu, roedd Thatcher yn esgus na chlywai'r brotest tu fas. Ond tybed a effeithiodd y rhegfeydd a'r sgrechiadau ar drwmgwsg gwleidyddol Swbwrbia? Mae angen siglo D.O. a'i debyg. Ond byddai ef yn ei smygrwydd Phariseaidd yn dadlau fod y fath brotest yn gweddu'n well i'r elfen 'anaeddfed' yn ein mysg - hyd yn oed pan fo ardaloedd yn Ne Cymru yn wynebu difodiant.

# O'R POST

51 Penylan Rd.,
Y Rhath, Caerdydd.

Annwyl Olygydd,

Mae'r sefyllfa'n gwaethygu bob diwrnod yng Nghymru a mae pawb bellach yn adnabod rhywun sy'n ddiwaith. Daeth Margaret Thatcher i ginio'r C.B.I. ar Rhagfyr 11 a'r cwestiwn mawr yw 'Ble oedd Cymry Caerdydd?' Dydy cydymdeimlad ddim yn ddigon. A ydy'n ormod gofyn iddynt adael eu tai cynnes, moethus i sefyll am ychydig o oriau yn yr oerni er mwyn dangos eu gwrthwynebiad i bolisiau erchyll y Toriaid?

Nid yw ennill brwydr Y Bedwaredd Sianel yn golygu fod yr ymgyrch yn erbyn y Llywodraeth Doriaidd wedi dod i ben. Beth yw pwrpas cael Sianel Gymraeg os gorfodir y bobol i fynd i Loegr i chwilio am waith? Yn y sefyllfa sydd ohoni, os na fyddy bobol yn barod i weithredu'n wleidyddol, fydd na ddim diwylliant Cymraeg heblaw efallai am y clwbiau Cymraeg yn y dinasoedd Seisnig. Er mwyn iaith rhaid cael gwaith. Dyna'r slogan ond ble mae'r gweithredoedd?

Yr eiddoch yn gywir,

G.Thomas, A.Thomas, I.Pritchard

Dyma sylwadau cyfaill un o'r rhai a gafodd ei gamdrin yn ystod protest Thatcher tu allan i Neuadd y Ddinas ar Ragfyr 11 -

'Roedd Aled (Jones) yn sefyll hefo ni yn gwneud dim heblaw gweiddi fel pawb arall. Lluchiodd rhywun "flare" o'r tu ôl i ni ac ychydig o funudau wedyn, gafaelodd dau blisman ynddo. Triodd Ann a fi a Sian atal y plismyn a bu rhaid i fwy ohonyn nhw ddod i afael ynddon ni. Er i ni weiddi nad oedd Aled wedi gwneud dim, aethpwyd ag ef i ffwrdd tua 8.00 p.m. Gollyngwyd ef yn rhydd am 11.30 p.m. Gofynnodd un o'r rhai a arestiwyd hefo Aled a allai ddefnyddio'r ffôn, ond dywedodd y plisman nad oedd ffôn yno! Mae Aled i fod yn y llys yn Ionawr. Ella bydd rhaid iddo dalu dirwy neu dalu costau. Dydy o ddim wedi gweld cyfreithiwr eto.'

Sol.

Fe gafwyd Aled Jones yn ddieuog.

Annwyl Olygydd,

Buaswn yn ddiolchgar iawn pe baech yn caniatau i mi wneud cais yng ngholofnau eich papur am wybodaeth oddi wrth eich darllenwyr. Rwyf ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth ar ran yr Amgueddfa Werin am arferion plant yng Nghymru ddoe a heddiw. Daeth peth gwybodaeth i law eisoes ond rwy'n sicr fod tipyn mwy ar gael ac felly dyma wneud apel.

Tybed faint o'r darllenwyr oedd yn Hel Calennig ac os felly, pa rigymaú etc. oeddent yn eu canu neu'n eu hadrodd? Sut y byddid yn casglu a beth oeddent yn ei dderbyn fel Calennig? Buaswn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth. Hefyd beth am ddisgrifiad o arferion eraill tebyg fel 'Hel Crempog' (bu hon yn boblogaidd yng Ngwynedd ar un adeg) neu 'Clepio am Wyau' a fu'n arfer gan blant Ynys Mon adeg y Pasg hyd yn gymharol ddiweddar. Mewn gwirionedd, hoffwn gael gwybodaeth am unrhyw arferiad a berthyn i blant.

Rwyf hefyd yn awyddus i gofnodi cymaint ag y medraf o chwaraeon plant o unrhyw ardal yng Nghymru - rhai Cymraeg a Saesneg neu rai heb eiriau o gwbl. Pa fath o deganau neu offer chwarae fyddai gan y plant? Sut oedd gwneud y rhain? Buaswn yn ddiolchgar am wybodaeth gan unrhyw un sy'n medru cofio. Medrwch gysylltu a mi yn Yr Adran Llen Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. CF5 6XB.

Diolch yn fawr,

Tecwyn Vaughan Jones,
Cynorthwywr Ymchwil.

CYFARFOD PWYSIG

Ar Fawrth 24 yn Eglwys Dewi Sant, cynhelir Cyfarfod Blynyddol y 'Dinesydd'. Bwriedir dewis Pwyllgor Rheoli newydd a Swyddogion newydd. Croeso i bawb ddod i leisio'u barn. Mae hwn yn ddyddiad amodol.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# Y Dôn Gron

# pytiau

Cas gŵr na châr y wlad a'i Magi .... "The record", chwedl Valmai Pupur a Dyfan Halen, "is not for turning". Gan fod penaethiaid B.B.C. Cymru, sy'n trigo yn ein plith, wedi gwneud llond eu tronsiau mor hawdd, ni welwyd mo Dafydd Iwan ar 'Rhaglen Bowel Gwynfryn' ym mis Rhagfyr wedi'r cwbl.

Rhaid cyfaddef bod y dôn gron ail-adroddus 'Magi Thatcher' wedi troi arna i ar ôl dim ond tridiau o'i chlywed, sy'n arwydd eithaf sicr ei bod ar ei ffordd i ben y siartiau. Os mai arbed poen i Mags ei hun oedd bwriad y ban, gallaf eu sicrhau na fydd yn gweithio. Er gwaetha'r ffaith i'r B.B.C. wahardd chwarae 'Ireland for the Irish' Paul McCartney ar y troellfwrdd sancteiddiolaf, fe gafodd Mrs.T. y neges. Onid oedd Charles Haughey yn gwenu o glust i gulster ar ôl iddi fod yn siarad ag ef yn Nulyn ddiwedd y flwyddyn? Bu Conor Cruise Missile, golygydd yr 'Observer', yn cael cathod bach wrth synhwyro nad yw'r Ledi bellach mor Haearnaidd ag y bu ynglyn ag Ulster. Siawns na chlyw ein cân ninnau rywdro cyn diwedd y byd...

Ond Leo un yn llefain yn y diffeithwch diwydiannol, onid ceisio seboni landlordiaid Absennol ar y Pwyllgor Llethol Cymreig oedd bwriad B.B.C. Cymru rhag edliw iddynt mwyach mai B.B.C. Cymrud-ochrau ydynt? Bu'n gwbl amlwg i wylwyr Cymraeg ers tro mai peiriant ricriwtio ar gyfer yr F.W.A. yw Llanganna yn y bôn. Nid yw'r pleidiau Prydeinig erioed wedi cael eu pig i mewn. Cymrwch y Rhyddfrydwyr Cymreig druan, er enghraifft. "Hidiwch chi befo Geraint", medda fi wrth ffarmwr Howells wrth gyfri wyn llywaeth noson o'r blaen. "Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain. Daw dydd mint sos y rhai mawr". Ar ôl i Leo Abse gael digon o grap ar y Gymraeg ceir chwarae teg i bawb ar 'Cyn Un' beth bynnag am 'Panorama'. Nid ar chwarae bach yr hepgorir byth eto o fwletinau 'Heddiw' yr holl derfysg a chynnwrf ac ymgyrchu grymus a chyson a gyflawnir yng Nghymru'n feunyddiol yn enw'r grym cymdeithasol nerthol hwnnw a elwir Y Rhyddfrydwyr Ifanc.

Ond banio'r record neu beidio, nos Iau, Rhagfyr 11, roedd Mrs. Thatcher efo ni yn y cnawd: y brif ddynas yn y brifddinas. Gyda gwerth 'Trident' o blismyn yn gwarchod Neuadd y Ddynas oddi allan, teimlai Mags yn ddigon o lances tu mewn i dynnu tafod a galw enwau ar yr hwliganiaid yn yr "overflow" chwedl hithau. Magi cyfeillgarwch a dealltwriaeth, hwnna ydi o. Cododd un o swyddogion codog y C.B.I. ar ei draed i longyfarch y ddynas ar ei gorchest o araith gan ddywedyd , "Nobody loves Wales more than Margaret Thatcher". Cariad pur sydd fel y dur, bid siwr...

Ar 'Radio Cymru/Wales' roedd ganddynt raglen deyrnged o'r enw 'Mrs. Thatcher at the C.B.I.' dan ofal tadol Patrick Hannan a Roy Roberts. Ofn nes oeddwn i'n sâl i Roy ddechrau ei rhegi - yn enwedig pan ddechreuodd y rhaglen redeg yn hwyr a chymryd gofod rhaglen y dysgwyr 'Catchphrase Colour Supplement'. Gwyddom fod gan Roy ambell 'Catchphrase' digon lliwgar o'i eiddo'i hunan. Ond chwarae teg iddynt ymataliodd ef a Phatrick yn wyrthiol o dan yr amgylchiadau sy'n fwy nag y gellir ei ddweud am y Dr. Roger Thomas, A.S. Caerfyrddin. Dros ei grogi y cefnogodd y meddyg da hwn beth mor llywaeth â Datganoli. Ond dyma fo bellach wrthi fel lladd cenedlaetholwyr ar bob cyfrwng posib yn cwyno mor ddrwg yw hi arnom yma - ar gyrion gorllewinol gwladwriaeth dindrom yr U.K. y mae ef mor deyrngar iddi. Fedrwch chi na neb arall, Dr. Thomas, gael Mrs. Thatcher a'i bwyta hi. <u>Roger and out</u>....

Charles Huws.

GWERSI 'KARATE'

I'R CYMRO NEU'R

GYMRAES.

CYSYLLTWCH Â MAIR ROSSER,

CAERDYDD 594992.

COFIWCH AM ŴYL GERDD DANT CAERDYDD.

<u>ER COF AM ALUN</u>

Pob clod i Eleri Morgan, 13 oed, Bethan Wales, 12 oed, a Sioned Guy, 10 oed. Mae Eleri a Bethan yn ddisgyblion yn Ysgol Glantaf a Sioned yn mynychu Ysgol Bryntaf. Fe benderfynodd y tair gasglu calennig er cof am Alun ac ar fore Calan fe lwyddon nhw gasglu cyfanswm o £17. Danfonwyd yr arian at y Gronfa er Ymchwil i Leukaemia dan ofal y Dr. Thomson yn Ysbyty Llandochau. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd yn Rhiwbeina.

<u>Gol.</u>

Yn rhifyn Rhagfyr fe ddywed G. Ifans yn ei lythyr, "Mae'n bosib taw'r 'Dinesydd' yw'r unig bapur bro yng Nghymru sy'n cael ei ddosbarthu'n rhad ac am ddim". Fe ofynwyd imi ddatgan nad yw'r papur yn cael ei ddosbarthu'n rhad ac am ddim gan ei fod yn dibynnu ar gyfraniadau ariannol unigolion.

<u>APEL</u>

Gobeithio y bydd y rhifyn nesaf yn un arbennig. Rydym wedi penderfynu ymgeisio yng nghystadleuaeth Papur Bro yr Eisteddfod Genedlaethol. Felly a wnewch chi ddanfon eich erthyglau, llythyrau, straeon ac yn y blaen at y Golygydd, sef Martin Huws, 129 Heol Richmond, Y Rhâth, Caerdydd. (Ffon 484988).

Rydym yn awyddus i dderbyn y deunydd canlynol :

i. cyfraniadau oddi wrth ddisgyblion ysgol, e.e. traethodau 'Dydd Gŵyl Ddewi'
ii. gwybodaeth am hanes y ddinas a'r cylch.
iii. newyddion o'r Brifysgol a'r Colegau.
iv. newyddion o BOB ardal
v. lluniau
iv. adroddiadau cymdeithasau
vii. portreadau o gymeriadau lleol

ac unrhyw ddeunydd a fyddai o ddiddordeb cyffredinol. Felly beth am ddwyn bri i'n papur bro? Y dyddiad cau yw Chwefror 21.

COFIWCH AM ŴYL GERDD DANT CAERDYDD.

# TREM YN ÔL

Ganwyd Cymdeithas y Cymrodorion (Caerdydd) ym 1885. Felly eleni mae o fewn pum mlynedd i ddathlu ei chanmlwyddiant. Enw amlwg ymhlith y sefydlwyr oedd Edward Thomas (Cochfarf). Saer oedd ef wrth ei alwedigaeth, yn hannu o Langynwyd, Maesteg, ac wedi mynd i gadw tŷ bwyta ('coffee tavern' yng ngeirfa'r amser hwnnw) gyda chyfeillion. Ond am eu bod am agor ar y Sul (ag yntau yn aelod selog yn y Tabernacl), ymadawodd a'i gyfeillion i agor ei dŷ bwyta ei hun yn Custom House Street. Ac yno y dechreuwyd y Gymdeithas mewn adeg pan oedd Cymru yn deffro i'w hymdeimlad o genedligrwydd. Felly, Cochfarf, a roes gartre iddi a Dafydd Morgannwg, awdur 'Yr Ysgol Farddol', a roes enw iddi sef Cymrodorion Caerdydd, a Dyfed a roes arwyddair iddi, sef "Gwnewch bopeth yn Gymraeg".

Ymhen dwy flynedd fe ddaeth yr Uwchgapten Evan Rowland Jones i Gaerdydd. Mae ei fywyd ef yn stori ynddo'i hun. Fe'i ganed yn Sir Aberteifi a bu yn ymladd ym myddin Abraham Lincoln yn yr America. Daeth yn ôl i Brydain fel cynrychiolydd yr Unol Daleithiau. Llenor, newyddiadurwr, golygydd y 'Shipping World' a Chymro twymgalon. Fe gychwynnodd fudiad i sefydlu ysgoloriaethau yn y Brifysgol ar gyfer gweithwyr glo Morgannwg a Mynwy ac yn ddiweddarach daeth yn Aelod Seneddol dros Fwrdeisdrefi Caerfyrddin.

Dyma fe yn ymuno â'r Cymrodorion Allan o'i boced ei hun fe dalodd am boced ei hun fe dalodd am brydles ar 70 Stryd y Santes Fair fel cartref i'r Gymdeithas. Roedd yno neuadd i ddal 250, ystafell a elwid 'Y Ddarllenfa' lle gellid darllen y 'South Wales Daily News', y 'Western Mail', 'Cymru Fydd', a chylchgronnau eraill. Dros y drws fe dorrwyd y geiriau 'CYMMRODORION CHAMBERS' a gwelwyd yr un arysgrif ar y ffenestri. O boptu'r drws yr oedd dwy siop - Y Faelfa, fel y'i gelwid.

Buont yn lwcus i gael Beriah Gwynfe Evans, golygydd Cymreig cyntaf y 'South Wales Daily News' yn ysgrifennydd. A bu mor weithgar fel y cafodd ganiatâd i gyflogi ysgrifennydd cynorthwyol a thalu £10 y flwyddyn iddo. Cafwyd ceidwad i fyw yn y tŷ yn ddi-dâl am ei ofal. Felly dyma sylfaen gadarn a chyffrous. Mae'n amlwg fod gan yr aelodau dipyn o falchder o'r ganolfan oherwydd nid oeddent yn ymatal pan oedd achos achwyn ar eu cymdogion. Mae un cofnod ar ffurf llythyr at oruchwyliwr yr Albert Club yn Heol y Porth, Tachwedd 1887, i'w hysbysu fod ei gwsmeriaid ef yn cadw twrw o dan yr ystafell areithio adeg y cyfarfodydd a gofyn iddo yn garedig i edrych i mewn i'r mater. Wedyn dyma lythyr at berchnogion y siopau o'r ddwy ochr yn gofyn iddynt beidio â gosod eu nwyddau uwchben y drws oedd yn arwain i ystafelloedd y Gymdeithas. (Cais eithaf teg, gan mai siop win a siop gwerthu pysgod oedd o boptu.)

Wel, beth oedd yn mynd ymlaen yn y Cymmrodorion Chambers lle roedd yr aelodau yn cwrdd unwaith yr wythnos? Roedd darlithiau a chwrdd clebran. Yma, hefyd, yr oedd yr Eglwyswyr oedd yn addoli yn yr iaith Gymraeg yn cyfarfod. Roedd y Parchedig Griffith Arthur Jones, Ficer Eglwys y Santes Fair, yn fodlon talu £20 y flwyddyn am yr ystafell ddarlithio er mwyn cynnal oedfaon yn y Gymraeg ar y Sul ac fe gafodd ganiatâd ond i'r Eglwys fod yn barod i dalu rhywbeth i'r gofalwr am ei waith ychwanegol ar y Sul.

Yna, yn Hydref 1887, dyma lythyr yn cyrraedd oddi wrth y Doctor Joseph Parry yn cynnig arwain Côr y Cymmrodorion ac i gynnal dosbarth mewn cerddoriaeth os oedd angen, a hynny yn ddi-dâl. Derbyniwyd ei gynnig gyda diolch; ac wedyn aeth y swyddogion ati i arfer eu dylanwad er sicrhau cadair gerddorol yn y Coleg i Joseph Parry. Fe gafodd gadair a rhoddodd ei wasanaeth i'r Gymdeithas a benthyg piano. Roedd yr adran gerddorol yn llewyrchus iawn yn paratoi ar gyfer cyngherddau ac eisteddfodau. Dyma rai o'r testunau yn un o'r eisteddfodau:

Côr Cymysg - 'He watcheth over Israel'; Gwobr £50
Côr Meibion - 'Y Pererinion'; Gwobr £15
Pedwarawd - 'Y Blodeuyn Olaf'; Gwobr £3
Côr Plant - Tair 'action song' o waith Mr. Tom Price Gwobr £5

Daeth Mrs. Clara Novello Davies a Mr. Tom Price i gynorthwyo. (Roedd Tom Price yn arweinydd y gan yn y Tabernacl ac wedyn yn ysgrifennydd yr Eglwys).

A beth am weithgareddau eraill? Dathlu Gŵyl Ddewi trwy giniawa wrth gwrs! Ymhle? Gwesty'r Parc amdani, am bris o 2s 9c (sef 14c heddiw), ond y prisyn codi i 3s 6c (17½c) gyda dessert. Ac yn trefnu i un-ar-bymtheg siarad yn y cinio!! Trefnwyd pleserdeithiau i Gastell Hensol, i Weston ac i Minehead, a Chochfarf yn gyfrifol am y bwyd (cofier am ei dŷ bwyta!). Yr oedd llogi'r ystafelloedd gan gymdeithasau eraill sef y Cambrian Society, y Junior Liberals a'r Cambrian Glee Society yn help i gadw pethau i fynd. Rhoddwyd gwahoddiad i H.M.Stanley i frecwast cyhoeddus gyda'r Gymdeithas pan oedd ar ymweliad a Chaerdydd ond nid oes gofnod yn rhoi manylion pellach.

Nid cynnal cyfarfodydd oedd unig ddiben y Gymdeithas. Gellir dweud iddi: (a) sicrhau lle i'r Gymraeg yn ysgolion elfennol y ddinas; (b) gadw'r Gymraeg yn fyw ar lawer aelwyd; (c) sicrhau fod Llyfrgell y Ddinas yn cael cyflenwad o lyfrau Cymraeg. (Aeth Cochfarf a Beriah Gwynfe Evans i sbïo allan beth oedd i'w gael. Fe ddaeth y Llyfrgellydd a sypyn bychan yn ei freichiau at y bwrdd. Fe ddaeth Cochfarf yn aelod o Bwyllgor y Llyfrgell a gwelwyd gwelliant mawr); (ch) sicrhau fod y Mesur Addysg Uwchradd a oedd o flaen Ty'r Cyffredin ym 1888-89 yn sefydlu Bwrdd Canolog Cymreig i reoli addysg uwchradd yng Nghymru; (d) gwrthdystio yn gryf, ac annog cymdeithasau Cymraeg eraill i'w chefnogi yn ei gwrthdystiad yn erbyn rhyw sarhad ar y Cymry yng Nghyfrifiad 1891.

Daeth bron y cyfan o'r ffeithiau a nodwyd allan o lyfr cofnodion cyfnod cynnar y Gymdeithas sydd ar gael o hyd. Ond mae'r gyfrol sy'n cofnodi blynyddoedd cyntaf y ganrif hon a blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar goll. Mae trydydd llyfr y cofnodion ar

Parhad ar dudalen 9

# Cyfarchion o Dregarth

Blwyddyn Newydd Dda! Cyfarchion o Dregarth ym mro Llais Ogwan i ddarllenwyr Y Dinesydd. Rydw i'n sgrifennu atoch ar Sul ola'r flwyddyn. Er ei bod hi'n glawio'n ysgafn mae'n ddigon clir i weld copaon gwyn y mynyddoedd - Carnedd Dafydd, Carnedd Llewelyn, Pen yr Ole Wen, Moel Faban a Moel Grach... Draw tua Bethesda yn uwch i fyny Dyffryn Ogwen, gallwn weld hen Chwarel y Penrhyn, sy'n dal i weithio, yn graith hyll ar y llechwedd. Mae nhw'n dweud bod pymtheg tunnell o lechi'r chwarel ar do'r tŷ 'ma ac mae Mam yn falch oherwydd ei bod hi'n casáu'r gwynt cryf sy'n chwipio i lawr Nant Ffrancon.

Dyna i chi'r olygfa o ffrynt y ty. Drwy ffenestri'r stafelloedd cefn cawn gip ar y Fenai, Ynys Seiriol a thraethau Mon. Yn yr haf, ar ol arholiadau lefel O, dwi'n edrych ymlaen at fynd i folaheulo ar draethell fach unig ar yr ynys. Ond gan ei bod hi'n oer a rhynllyd ar hyn o bryd, a Sion Corn wedi gadael sgidie dringo i Rhys, gwell troi'n golygon tua'r mynyddoedd. Roeddem ni wedi clywed bod y daith drwy Nant Ffrancon i fyny at Lyn Idwal yn un braf ac eithaf hawdd. Felly wedi gwisgo'n gynnes mewn 'kagools', menyg, capie a sgarffie i ffwrdd â ni yn y car cyn belled a fferm Tŷ Gwyn. Wedi parcio ar ymyl yr A5 gwisgodd y bechgyn eu sgidiau trymion a dyma gychwyn ar y daith. Credwch neu beidio, wedi cerdded rhyw hanner canllath syrthiodd Mam i ganol y mwd. Gan fod ganddi glamp o annwyd beth bynnag, a chan mai Methodist yw Mam yn wreiddiol, fe fynnodd mai rhagluniaeth oedd yn gyfrifol am ei chwymp a throdd am adre yn y car.

Wedi rhyw awr o ddringo daeth Llyn Idwal i olwg Annibynwyr y teulu. Rown i wedi blino'n lân gan lithro'n aml ar yr eira dan draed. Stop bach am Mars Bar yr un. Cerdded gydag ymyl y Llyn a chrwydro i Gegin y Diafol ac i lawr a ni i gwrdd a Mam erbyn pedwar y pnawn. Er bod 'na gleisie a phothelli ar fysedd traed, ac er bod y cymalau'n gwynio fel y dywed y Cardis, rydyn ni eisoes yn cynllunio'r daith nesa.

Mae Tregarth ryw dair milltir o Fangor. Dwi'n ofni nad ŷw'r siope yno hanner cystal â siopa modern Caerdydd. Tair siop ddillad neis sy' 'na. Felly mae trip bach ar y tren i Gaer nawr ac yn y man yn dderbyniol.

Mae hen adeilad Ysgol Tryfan yn edrych i lawr ar dre Bangor a dwi'n cael lifft yno bob bore gan y Prifathro sy'n byw lawr yr hewl. Tua chwe chant o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ac mae hi flwyddyn yn iau na Llanhari. Gwyrdd a choch yw lliwiau'r wisg ysgol ac rown i'n cael problemau wrth glymu'r tei i ddechrau gan nad oedd tei yn rhan o wisg Llanhari. Dwi wedi meistrioli'r gamp erbyn hyn! Mae rhan helaeth o'r ysgol uchaf yn ddi-Gymraeg ac o'r herwydd mae'r ysgol gyfan yn tueddu i fod braidd yn Seisnigaidd ei naws. Ond a dweud y gwir, does neb bron yn fy neall i'n siarad rhwng y 'lan', y 'mas', a'r 'smofi'!

Mae Cerddorfa Gwynedd dan arweiniad John Huw Davies yn cwarfod unwaith y mis yn Ysgol Eithinog. Dwi wrth fy modd yn canu'r delyn yno. Fis yn ol, fe berfformiodd y Gerddorfa ddarn a gyfansoddwyd yn arbennig iddi gan Gareth Glyn. 'Eryri' yw enw'r darn ac mae rhan gret i'r delyn ynddo.

Mae Dad newydd gyrraedd adre o'r gwasanaeth ym Mhendref y bore 'ma ac mae'n llwgu. Mae Mam yn dal yn ei gwely oherwydd yr annwyd, a Rhys ac Armon mas yn cerdded. Felly, dwi'n credu bod yn well i mi ddirwyn y cyfarchiad i ben a mynd i baratoi cinio. Diolch am yr holl gardie Nadolig a bostiwyd i Nant yr Eira. Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Betsan Powys.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


## MENTER THEATRIG

Ar nos Fawrth, Chwefror 10, yn Arena'r Sherman, bydd cyfle unigryw i weld gwaith yr enwog Teatr Brezoneg Penn ar Bed o Lydaw. Y mae Cwmni Cyfri Tri, cwmni theatr arbrofol a gyflwynodd ei gynhyrchiad cyntaf 'Gwrachod y Môr' yn Chapter ym mis Mawrth llynedd ac a fu'n gweithio ar nifer o brosiectau yng Ngorllewin Cymru ers hynny wedi trefnu cyfnewid theatrig unigryw rhwng Cymru a Llydaw trwy ddod a chwmni Penn ar Bed i Gymru ym mis Chwefror. Yna bydd Cwmni Cyfri Tri yn mynd draw i Lydaw i berfformio yn y Palais des Arts et de la Culture yn Brest ac yn St. Brieuc.

Ffurfiwyd Teatr Penn ar Bed ym 1974 gan grwp o fyfyrwyr a oedd am greu teip o theatr Lydaweg a fyddai'n gwbl newydd a chyfoes. Aethpwyd ati i greu theatr a defnyddio iaith syml a fyddai'n addas ar gyfer cynulleidfaoedd dinas a chefn gwlad. Oherwydd y nifer fawr o Lydawyr nad oes ganddynt ond gwybodaeth niwlog iawn o'r Llydaweg, rhoddir pwyslais mawr ar ochr weledol y chwarae a gwneir defnydd helaeth o gerddoriaeth a meim. Yn y gorffennol, mae'r cynhyrchiadau wedi cynnwys gweithiau gwreiddiol a ysgrifennwyd gan y cwmni yn ogystal â gwaith gan ddramodwyr Llydaweg megis Gwillou Kergourlez. Hefyd cyfaddaswyd gwaith dramodwyr y gwledydd Celtaidd eraill megis 'Karantez Kriz, Karantez Droug' (addasiad o 'Cariad Creulon' Bryn Williams); 'War Varc'h d'ar Mor' (addasiad o 'Riders to the Sea' J.M.Synge), ac 'An Ostaj' (addasiad o 'The Hostage' Brendan Behan).

Ar gyfer eu hymweliad â Chymru, mae'r cwmni wedi dewis dau gyflwyniad; 'O Chezus', addasiad o 'Mistero Buffo' Dario Fo a gyflwynir mewn arddull liwgar a doniol ac 'Egile' gan y dramodydd Llydaweg Per Jakez Helias. Mae'r olaf wedi'i haddasu i'r Saesneg o dan yr enw 'The Other 'Un''.

Trwy'r fath gyfnewid theatrig, gobeithia Cwmni Cyfri Tri a Theatr Brezoneg Penn ar Bed gryfhau'r cysylltiadau celfyddydol rhwng Cymru a Llydaw a hybu menter theatrig sy'n ymdrechu i

Parhad ar dudalen 6

# NODION CWM RHYMNI

TWYLLODRUS

Dydd Mercher olaf Tachwedd yng Nghanolfan Chwaraeon Parc Virginia, Caerffili, cynhaliwyd Cystadleuaeth Pêldroed Pump-bob-ochr Cymdeithas Chwaraeon Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni. Daeth saith tim i'r ganolfan: Bargoed A, Bargoed B, Caerffili A, Caerffili B, Ifor Bach A, Ifor Bach B, a Rhyd y Grug.

Dyma'r canlyniadau. Y rownd cynta:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caerffili A | 9 | Ifor Bach B | 0 |
| Ifor Bach A | 1 | Bargoed A | 2 |
| Rhyd y Grug | 1 | Caerffili B | 3 |

Yr Ail Rownd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bargoed B | 0 | Bargoed A | 3 |
| Caerffili A | 3 | Caerffili B | 0 |

Gêm y Trydydd Safle:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bargoed B | 1 | Caerffili B | 0 |

Y Rownd Terfynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bargoed A | 1 | Caerffili A | 4 |

Cyflwynodd Cadeirwraig Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhyd y Grug dlws y Gymdeithas i Jason Lugg, capten Caerffili

Y diwrnod canlynol derbyniais lythyr diddorol iawn a gyfeiriodd at y ffaith fod Dai Williams, 45 Pengam Street, Glan y Nant, wedi dysgu'r Gymraeg yn ystod y deunaw mis diwethaf a'i fod wedi ennill Tystysgrif Prifysgol Cymru, Caerdydd, mewn Cymraeg (ail iaith). Mae'n siarad yn hynod o rwydd a naturiol ac mae'r dysgwr hwn yn barod i ddefnyddio Cwrs Chris Rees ar gyfer Wlpan Pengam. Os ydych yn gwybod am rywun sy'n teimlo ar ei galon fel ymuno â'r cwrs, rhowch wybod i Dai Williams ar unwaith.

Yn sgîl llongyfarch Dai Williams ar ddysgu'r Cymraeg rhaid llongyfarch ef a'i wraig Jo ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Rhian. Ie'n wir, Cymraes fach arall i Gwm Rhymni. Mae'r gymdeithas yn cryfhau.

Bore dydd Llun, Rhagfyr 22, bu farw Mrs. Susie Williams yn ei chartref, Tŷ Ddewi, 1 Hillside Park, Bargoed. Roedd yn enedigol o ardal Llansawel a daeth i fyw i Fargoed dros dri chwarter canrif yn ôl pan apwyntiwyd ei thad yn Llyfrgellydd y 'Stiwt'. Aeth i Ysgol Ramadeg y Merched, Hengoed, a phenderfynodd fynd yn athrawes. Pan ymddeolodd o un o ysgolion Gelligaer ym 1965 cafodd gyfle i fynd ar bererindod i Batagonia ac ni flinodd sôn am y daith ddathlu honno. Roedd yn aelod o lawer Cymdeithas - Cymdeithas Gorawl Nelson, Cymdeithas Islwyn Coed Duon. Cymdeithas Gymraeg Caerffili, Cymdeithas Hanes Gelligaer, Cymdeithas Gerdd Cwm Rhymni, Toc H Bargoed ac un neu ddwy arall. Roedd yn mynychu Eglwys y Santes Margaret Gilfach ar y Sul. Bu'n hael ei chyfraniadau ariannol i wahanol fudiadau yn enwedig Yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Chronfa Gwyndaf.

Ar ddiwedd 1980 cyhoeddwyd enwau'r bobl a dderyniodd anrhydeddau'r Frenhines. Yn eu mysg roedd enw'r Cynghorwr Bro John Haydn Jones, Usk Road, Bargoed, un o lywodraethwyr Ysgol Gymraeg Gilfach Bargoed. Mae Mr. Jones sy'n 73 oed yn hynod o weithgar yn ardal Bargoed. Am y ddeng mlynedd diwethaf ef yw Cadeirydd Cyfeillion Ysbyty Ystrad Mynach. Ef hefyd yw Ysgrifennydd y 'Settlement' ym Margoed.

Derbyniodd dystysgrif arbennig oddi wrth Montgomery oherwydd ei wasanaeth clodwiw gyda'r Adran Feddygol yng ngogledd-ddwyrain Ewrop yn yr Ail Ryfel Byd. Ym 1924 ef oedd un o sylfaenwyr Adran Ambiwlans Sant Ioan ym Margoed. Eleni fe fydd yn derbyn tlws yr M.B.E. am ei wasanaeth diflino i'r mudiad hwnnw. Fe fydd hon yn goron ar bob anrhydedd y mae wedi eu derbyn yn lleol ac yn sirol.

Dafydd Islwyn.

O dudalen 5

archwilio a chyflwyno agweddau ar ymwybyddiaeth a phrofiadau Celtaidd mewn dull cyfoes.

Dylid manteisio ar y cyfle arbennig hwn i weld gwaith y cwmni arloesol yng Nghaerdydd ar nos Fawrth, Chwefror 10.

Christine Watkins.

Gweler y llun ar dudalen 11

Derbyniodd Cyngor Dinas Caerdydd wobr ryfedd yn ddiweddar - y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Meini Palmant Sigledig. Ymddengys fod gan y ddinas y meini palmant mwyaf anwastad a sigledig yn y pedair gwlad.

Dywedodd llefarydd ar ran y Bwrdd Croeso "Mae hon yn glod. Diau mai hon yw'r brif ffactor sy'n denu miloedd i Gaerdydd yn yr haf. Ar ol cawod heulog fe gaiff ymwelwr y profiad gwefreiddiol o deimlo dŵr brwnt, oer yn tasgu i fyny ei goesau."

Ond beth yw'r rheswm am y nodwedd hynod hon? Roedd pedwar ateb posibl -

a. Dywedodd rhai fod y meini palmant twyllodrus yn rhan o ymgyrch Mudiad Meddwi Caerdydd yn erbyn eu harchelyn, y Jogwyr. Meddai Ap Swrd, Swyddog Gwasg y Mudiad, "Rhaid clirio'r gwehilion hyn oddi ar ein strydoedd. Mae nhw'n peryglu ein bodolaeth. Pwy sy biau'r rowns nesa?.... so i'n talu..."

b. Yn wyneb colledion ariannol trafnidiaeth Caerdydd, haerwyd fod y meini palmant twyllodrus yn ddyfais i orfodi'r trigolion i ddefnyddio'r bysiau'n fwy aml. Ond fe wadwyd hyn gan Bennaeth yr Adran Drafnidiaeth.

c. Tybed a oedd Cyngor y Celfyddydau wedi noddi artist i greu'r fath gampwaith ar gyfer arddangosfa enfawr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd? Dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor, "Mae'r syniad yn ddwl".

ch. O'r diwedd, fe gawsom dipyn o wybodaeth. Dywedodd y Cynghorwr Dwlali fod ystyriaethau ymarferol tu ol i gynllun y meini palmant sigledig. "Pe bai pob dinesydd yn paratoi'n fanwl, gallai gloddio o dan y meini palmant sigledig ac adeiladu lloches. Byddai hyn yn golygu fod mwy o bobol yn goroesi ymosodiad niwcliar."

Clônsiglwr.

COFIWCH AM ŴYL GERDD DANT CAERDYDD.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Er mwyn cyflawni be' sy' raid, osgoi diogi, a hefyd hybu'r cof, rydwi ers misoedd wedi gorfod disgyblu fy hun a gosod rhestr ar wal y gegin o'r hyn y bwriadaf eu cyflawni mewn wythnos. Yr wythnos yma, bythefnos cyn y Nadolig, dyma fi wedi cyflawni rhai pethau ar fy rhestr - dau gant o fins peis, erthygl papur Y Wladfa, gorffen fy siopa Nadolig a phacio, a'r peth nesa ydy ysgrifennu colofn 'Y Dinesydd'.

Yng nghanol prysurdeb y Nadolig, mae hi bron yn amhosibl hoelio fy sylw a meddwl am rywbeth perthnasol i'w ddweud wrth ddarllenwyr y papur. A deud y gwir, does gen i ddim i'w ddweud!

Wrth eistedd i lawr o flaen tudalen lan, wag, ceisiaf atgoffa fy hun fod yna duedd gynyddol ynof i edrych yn ol o hyd a son am fy mhlentyndod a hiraethu am lawer o'r pethau a fu. Arwydd o henaint, maen'n debyg. Wrth edrych ymlaen (nid fy mod i eisiau cofiwch) ond o feddwl am 1981 ceisiaf osgoi edrych yn ôl, a wir yr, fe geisiaf beidio a son gormod am Batagonia er mi fuasai'n braf ymweld â'r Wladfa yn ystod '81. Wps, dyma fi wedi sôn am y lle - sori!

Beth ydy 'ngobeithion i ta wrth wynebu blwyddyn newydd? Yn gynta, ac yn bersonol, mi ddymunwn i iechyd i'r teulu a'm ffrindia i gyd. Yn ddistaw bach, hefyd, gobeithio yr aiff cynlluniau'r Bedwaredd Sianel rhagddynt heb ormod o wewyr a chur ben - er mwyn y sianel ac er mwyn iechyd ac ysbryd y rhai sy'n gorfod gweithredu'r cynlluniau.

Sut Ŵyl Gerdd Dant gawn ni, tybed? Gobeithio y gallwn gynnal y safon a osodwyd arnom. Mi fydd yn her inni gynnal Gwyl Werinol yn awyrgylch rhwysgfawr Neuadd y Ddinas. Ond pam na allwn ni ddefnyddio'r rhwysg i roi urddas ar Ŵyl sydd wedi tyfu o ran maint a chodi i safon uchel iawn ac erbyn hyn yn un o'r gwyliau pwysica ar galendr pob Cymro Cymraeg.

Wrth gwrs, digwyddiad pwysica 1981 inni'r Cymry Cymraeg fydd y Cyfrifiad. Daliwch ati, ddysgwyr dygn - mi fydd eich angen bob un. Dim ond un adduned sydd gen i. Rydwi wedi bathu rhywfath o arwyddair imi fy hun - rhywbeth yn debyg i "waeth beth fo'r amgylchiadau, NA CHYNHYRFER"!

Wrth gloi'r golofn hon, Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Dinesydd ac i'r Dinesydd ei hun. Gobeithio y cawn flwyddyn lewyrchus.

YSGOL UNDYDD

Chwefror 14: Canolfan y Cabidyldy (Chapter). 10.30 a.m. - oddeutu 4.30 p.m. Ysgol Undydd ar Ysgrifennu Storiau Byrion. Pris @4.50. Darlithwyr: Glyn Jones a Chris Torrance (Saesneg); Harri Pritchard Jones a R. Gerallt Jones (Cymraeg). Mwy o fanylion oddi wrth Ann Beynon, Yr Academi Gymreig, 4ydd Llawr, Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd. CF1 6QP

# Y GOLOFN GAIN

YNG NGOFAL
## ARFON

Dyma gywiro addewid y tro hwn a chynnig rhagor o gynnyrch Eisteddfod Caerdydd. Rhoddwyd dewis o destunau yng nghystadleuaeth yr Englyn Digri, sef 'Dyn y Tywydd' neu 'Pin Cau'. Wele un i'r Dyn Tywydd gan Anti Seiclon -

Am yr hin mawr ei honni ei fod ef
A dawn y proffwydi;
Wncwl neis bob tro clywn ni
Ar ei hynt fod rhyw 'Anti'.

a dau arall ar yr un testun gan Tomos -

Er dweud yn bur awdurdodol heddiw
Y byddai'n wastadol
Hinon Haf, daw 'ngeiriau'n ol
Mewn storom anystyriol.

Gwyliwch y stori gelwydd a reffir
Gan broffwyd y tywydd;
O rhy'i farn mai sychder fydd
Rhowch i Noa arch newydd.

ond englyn digri ar y testun arall aeth a'r wobr a dyma fe -

Pin Cau

Pin er cau pennau'r cewyn yn hwylus
Am ben ol y clobyn;
Saff ei steil waeth deil yn dynn
Ger y pegor heb **bigyn.**

J.Lloyd Jones, Llwyn Dafydd, Ceredigion, yr un gŵr ag a gafodd y wobr am yr englyn i'r 'Drych' a'i cant. Llongyfarchion iddo ar y gamp ddwbl.

A beth am gystadleuaeth y llinell goll?
Wel, dyma'r limerig i ddechrau a'i dilyn gan rai o'r llinellau disberod a gafwyd-

I'r Unol Daleithiau eleni
'Da Laker am wyliau aeth Sioni
Ond cafodd cryn fraw
'Rol cyrraedd fan draw

....Diflannodd ei wraig 'da ryw Ianci.
....'Roedd yn tywallt y glaw ym Miami.
....Y maes glanio oedd gymaint â Chymru.

....Roedd pris ar y naw am y tacsi.
....Ei ddannedd oedd 'nôl yn Nhreorci.

a dyma'r llinell aeth â hi:

....Wrth weld ei Fam-gu mewn bicini.

Rwy'n dal i ddisgwyl y ffrwd gyson o gerddi i'w cyhoeddi. Cofiwch y cyfeiriad:
31 Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

COFIWCH AM ŴYL CERDD DANT CAERDYDD.

# Hwyl a Hyder

Tachwedd: Fe barhaodd bwrlwm y meysydd chwarae drwy fis Tachwedd ac er i'r tywydd ennill y frwydr un dydd Sadwrn pan y buasai'n hawl chwarae polo-dŵr na phêl-droed, cafwyd cynrychiolaeth gref a chadarn o Gymry Cymraeg yn cicio gwynt ar gaeau Pontcanna.

Hanes tair gêm y tro hwn - a dwy o'r rheini yn erbyn yr un tîm sef St. Patrick's. Fe gollon ni'r gêm gyntaf o ddwy gôl i ddim a'r ddwy gôl yn cael eu sgorio yn ystod deng munud olaf y gêm. Brwydr galed oedd hi a fawr o ddim rhwng y ddau dîm nes i Rob Sanger faglu ar draws ei dafod a gadael i flaenwr y Gwyddelod rwydo'r bêl o ddeg llath. Tebyg oedd yr ail gôl hefyd a thafod Rob yn glymau erbyn hynny.

Clos iawn o ran chwarae oedd yr ail gêm ar y Sadwrn olaf ym mis Tachwedd ar Barc Sevenoaks.Roedd gwynt oer yn chwythu'n groes a'r haul hydrefol fel pelen goch yn prysur fachludo pan chwythodd y dyfarnwr ei olaf chwibaniad i ddynodi gêm ddi-sgôr. Cawsom sawl cyfle i ennill y gêm ond trueni fod Pwt wedi anghofio'i sbectol a bod Martin wedi anghofio ym mha gêm yr oedd yn chwarae! Yr oedd Eynon yn chwarae gyda llaw - wel, o leiaf, fe'i gwelsom yn yr ystafell newid wedi'r gêm!

Y Sadwrn cyn hynny cawsom ysbrydoliaeth o rywle. Roedd rhagluniaeth o'n plaid a chwalwyd tîm Grange Albion o saith gôl i un. Roedd hon yn fuddugoliaeth arbennig o dda a rhaid llongyfarch Alun Meirion ar sgorio tair gôl - a phob un yn dangos dawn a hyder digamsyniol y gŵr hwn o Benrhyn Llŷn (mae ambell i lo yn gallu gwneud rhywbeth heblaw pori, yntydynt?!). Sgoriwyd y gweddill gan Hefin (2), Elwyn Roberts (o Eifionydd) a Rheon a lwyddodd i gyrraedd cwrt cosbi'r gelyn wedi iddo ymdrechu'n galed. Mae'r pwysau yn siwr o fod yn handicap!

Mae'n bleser croesawu Hefin yn ol i'n plith wedi iddo dreulio dwy flynedd yn gweithio yng nghyffiniau Llundain. Dengys ei berfformiad hyd yma y bydd yn gaffaeliad mawr i'r tîm unwaith yn rhagor. Braf hefyd ydi cofnodi fod Dewi bellach yn gallu cicio'r bêl yn bellach na'r llinell ganol gan iddo astudio techneg Dai Davies yn erbyn Siecoslafacia yng ngêm Cwpan y Byd ganol Tachwedd.

Pasiwyd yn unfrydol y buasai'n llesol mynd ag ef yn amlach i wylio gemau tebyg fel y gall y tro nesaf sylwi sut mae arbed a dal y bêl.

Ni chafodd yr ail dîm fawr o lwc ym mis Tachwedd. Dim buddugoliaeth i'w nodi. Ond mae chwarae ac ymdrech y bechgyn - Cen(cartwn) Rhys (cartwn arall), Gwyn, Aled, Andrew a'r lleill (gan gynnwys Bags) yn brawf o'r ysbryd sydd wedi bod yn y tîm o'r cychwyn cyntaf. Daliwch ati, fechgyn.

Mae arwyddair newydd gan y clwb bellach. Wedi cystadleuaeth ar 'Helo Bobl', barnodd Dai Davies, golwr Cymru a Wrecsam, mai'r canlynol fyddai'n gweddu orau i'r clwb - "Gorau chwarae, chwarae teg" - gan obeithio y byddem yn chwarae yn deg ac yn cael chwarae teg ar y maes. Gobeithiwn y bydd yr arwyddair newydd yn ogystal â'r bathodyn yn ymddangos ar 'jumpers' newydd y clwb cyn bo hir. Yn olaf, cofiwch am yr ymarfer bob nos Fercher (6.30p.m. tan 8 p.m.) yn Ysgol Uwchradd Cantonian, y Tyllgoed. Croeso i bawb gan gynnwys dysgwyr.

O.N. Does dim gwirionedd yn y si fod Charles Huws, 'Y Faner', wedi methu a chael lle yn y tîm. Chafodd o 'rioed gynnig!

Rhagfyr: Ar ddiwedd y gêm ar Ragfyr 20 daeth y cicio i ben ar y meysydd pêldroed am y flwyddyn 1980, a hanner y tymor bellach wedi ei gwblhau. Hanner tymor pur lwyddiannus ar y cyfan a'r gobeithion yn uchel am ail hanner tebyg. Byddai'r un llwyddiant yn dod â ni yn agos at frig yr adran a phwy a ŵyr sicrhau dyrchafiad i'r Adran Gyntaf am y tro cyntaf yn hanes y Clwb. Breuddwyd gwag a ffôl? Cawn weld tua'r Pasg ar ddiwedd y tymor.

Dyma grynodeb o'r canlyniadau hyd yma:

Chwaraewyd 15,
Ennill 6; Cyfartal 6; Colli 3
Goliau: o blaid 38; yn erbyn 30
Pwyntiau: 18.

A beth am gemau Rhagfyr? - tair gêm i'w cofnodi ac enillodd y Clwb bum pwynt allan o chwech. Llwyddiant, ie, ond heb swnio'n farus, fe ddylsem fod wedi sicrhau y chweched hefyd. Sut mae cyfiawnhau dweud y fath beth? Wel, ar Ragfyr 14, chwaraeon ni yn erbyn ein hen elynion, St. Albans ar Barc y Sblot. Beth ddigwyddodd, tybed? Dim llai na thrychindeb. O fewn ugain munud i ddiwedd y gêm roeddem yn arwain o dair gôl i ddim. Ond pan chwythwyd y chwibaniad olaf, cyfartal oedd y sgôr. Aeth y cefnogwyr ar gyfeiliorn gan nad oedd y gŵr tew cadarn hynod, Rheon Tomos, yno i gadw trefn arnynt. Mynnodd Huw Bach, y capten, sgorio ac ildiodd Rob y gic gosb ddisgwyliedig fel y gwnaeth ymhob gem. Ar yr ochr gadarnhaol, rhaid cofnodi fod y blaenwyr, fel arfer, wedi gwneud eu gwaith yn drylwyr. Y tri sgoriwr oedd Martin, Wyn a Rhodri.

Ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 7, gwelwyd perfformiad mwyaf gwefreiddiol y tymor a'r canlyniad gorau ers tro byd. Y gwrthwynebwyr oedd tîm Bridgend Street, tîm ar ben ei ddigon gan iddynt golli dim ond un gêm yn ystod y tymor a sgorio cyfanswm o 35 gôl yn eu pum gem blaenorol. Yr unig beth o'n plaid oedd y ffaith nad oeddem erioed wedi colli yn erbyn y tîm hwn. Yn wir, mae'r record yn dal i sefyll. Dechreuodd y gêm yn dda - pawb yn taclo'n ffyrnig, yn chwarae'n gelfydd a'r awch i ennill ymhob aelod o'r tîm. Dwy gôl i ddim erbyn yr egwyl;pedair gôl i un ar ddiwedd y gem. Y sgorwyr oedd Wyn (2), Elwyn y meddyg bach, a Rhodri. O'r smotyn gwyn y sgoriodd y gwrthwynebwyr!

Sicrhawyd buddugoliaeth olaf 1980 yn erbyn Sblott Albion ar gae mwdlyd Pontcanna. Canlyniad da - pum gôl i ddwy ond gêm ddigon diddim. Efallai mai'r mwd a drechodd yn y pen draw. Sgoriwyd gôl yn eiliadau cyntaf y gêm a'r clod yn mynd i Eynon er i'r bêl daro ei ben ôl ar y ffordd i'r rhwyd wedi ergyd gan Elwyn Rhoslan! Rhwydodd Wyn. Sgoriodd Martin ddwy gôl a rhaid dweud iddo chwarae gêm arbennig yn twyllo a churo'r cefnwr ar bob cynnig. Yna sgoriodd Rhodri.

Beth oeddhanes yr ail dîm yn Rhagfyr? Dim ond dwy gêm a chwaraewyd. Cafwyd un fuddugoliaeth ac un cweir a phum gôl i ddwy oedd y sgôr yn y ddwy gem. Ennillwyd y gem yn erbyn The Centre a hon yn fuddugoliaeth dda. Llongyfarchion i Andrew ar sgorio tair gôl - camp nid bychan mewn unrhyw gêm bêldroed. Colli'r

Parhad ar dudalen 9

# Colofn Rhiwbeina

Y CYLCH MEITHRIN :

Mae Cylch Meithrin Rhiwbeina yn edrych am hen garped i osod ar lawr y neuadd lle mae'r ysgol yn cyfarfod. Os oes rhywun wedi bod yn ddigon ffodus i brynu carped newydd yn y Sêls ac yn edrych am gartref newydd i'r hen garped yna buasai Ysgrifennydd Cylch Meithrin Rhiwbeina yn falch iawn o glywed oddi wrthych chi! Rhowch ganiad i Caerdydd 62254 os gwelwch yn dda.

ADRAN BENTRE'R URDD RHIWBEINA :

Cynhaliwyd Gwasanaeth Llith a Charol gan blant yr Adran a chyn-aelodau'r Adran dan arweiniad Alun Guy yng Nghapel y Methodistiaid ar nos Lun, Rhagfyr 22. Braf oedd gweld y capel yn llawn. Ar ddiweddy gwasanaeth gwahoddwyd pawb i'r festri am baned a mins pei. Bu llawer o sgwrsio a nifer yn holi pam na fuasai modd cynnal gwasanaethau Cymraeg yn rheolaidd yn Rhiwbeina unwaith eto.

Bu gwasanaeth boreol Cymraeg bob Sul am tua thair blynedd yn ystod y chwedegau yng Nghapel Bedyddwyr Lon Ucha. Bu gwasanaethau yn ystod y rhyfel yng Nghapel y Methodistiaid a bu Ysgol Sul dan arweiniad y diweddar Athro W.J. Gruffydd ac eraill cyn hynny. Mae Capel Beulah hefyd yn trefnu gwasanaethau Cymraeg yn achlysurol. Trodd Beulah yn achos Saesneg ar ddiwedd y ganrif ddiwetha.

Bu'r Methodistiaid yn meddwl agor achos yn Rhiwbeina ar ôl i Fethel Union St. gael ei chwalu (tu ôl i siop Woolworth yn y dre), ond ni chlywir llawer am y syniad yna bellach. Ymddengys bod nifer o drigolion Rhiwbeina yn dymuno gweld achos neu symudiad i drefnu gwasanaethau Cymraeg yn rheolaidd yn yr ardal. Pwy a ddaw i'r adwy i droi'r awydd yma yn ffaith?

LLONGYFARCHIADAU :

Llongyfarchiadau i ddau fachgen o'r ardal sef Huw Owen, Heol y Bryn a Dafydd Baker, Charlotte Square ar gael cynnig lle mewn colegau yn Rhydychen. Bu Huw a Dafydd yn ddisgyblion yn y Cylch Meithrin ac yn Ysgol Bryntaf ac yn aelodau o Adran Bentre'r Urdd yn Rhiwbeina. Wedi hynny, aeth Huw i Ysgol Gyfun Llanhari ac eleni fe ydy prif swyddog yr ysgol. Aeth Dafydd i Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf. Bydd Huw yn astudio Athroniaeth yng Ngholeg Oriel. Bydd Dafydd yn astudio Swoleg yng Ngholeg y Santes Anne lle bu ei chwaer Lynette o'i flaen - hithau hefyd yn gyn-ddisgybl Cylch Meithrin Rhiwbeina ac Ysgol Bryntaf.

'MEITHRIN' :

Mae'r rhifyn diweddaraf o 'Meithrin' Bwletin Mudiad Ysgolion Meithrin, newydd ymddangos ac os ydych chi am gopi neu gopiau cysylltwch â Swyddfa'r Mudiad, 89 Heol Llanishen Fach, Rhiwbeina. Ffôn: Caerdydd 612690.

Hefyd os gwyddoch chi am newydd-ddyfodiaid i'r ddinas neu bobl yn byw o'ch cwmpas sydd â diddordeb mewn cynnig addysg Gymraeg i'w plant, rhowch wybod iddyn nhw yn Swyddfa'r Mudiad.

DYWEDDÏAD :

Cyhoeddir dyweddïad David Dyer, mab Mr. a Mrs. Alban Dyer, Y Waun, Caerdydd (aelodau yn Eglwys Dewi Sant) a Carol Williams o Fanc y Capel, Caerfyrddin. Mae Carol yn athrawes Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn cynorthwyo gydag Uwchadran y Dysgwyr a'r Dosbarth Oedolion o Ddysgwyr yng Nghanolfan yr Urdd.

Gwilym Roberts.

O dudalen 4

gael, a hanes cyffrous sydd i'r gyfrol honno. Mae hi yn awr yn cario'r label 'Civil Defence Rescue Service, Recovered from St. Agnes Road, 21.5.43'. Mr. Ifor Williams oedd yr ysgrifennydd ar y pryd ac yr oedd yn aelod yn Minny Street. Fe gafodd ef a'i wraig a'i ferch eu lladd mewn cyrch fomio, pan chwalwyd eu cartref i'r llawr. Tybed a gladdwyd y llyfr colledig dan y sbwriel? Mae'r gyfrol a achubwyd yn werth ei thrysori ac yn ddogfen hanesyddol.

Fe godwyd y pwyntiau uchod o araith Mrs. Eirene Anthony Davies, Llywydd y Gymdeithas am 1980-81, ar achlysur ei sefydlu.

Chwefror 19-21: Theatr y Sherman. 7 p.m. yn yr Arena. Theatr Bara Caws, yn cyflwyno 'Bynsan Binc' - sioe deuluol yn llawn dirwyddiadau annisgwyl a rhai digwyddiadau ysbrydoledig. Pris: £1.80.

YN EISIAU

Merch i rannu tŷ â dau Gymro Cymraeg yn ardal y Rhâth. Ystafell ei hun. Synnwyr hiwmor yn hanfodol. Ysgrifennwch at:

Hysbysebion Llety,
d/o Y Golygydd,
129 Heol Richmond,
Y Rhâth,
Caerdydd.

HYSBYS:

Gall hysbysebu yn Y Dinesydd ddwyn ffrwyth! Mae gennym yn awr delerau da i wŷr busnes a phobl gyffredin fel ei gilydd. Dyma'r manylion:

| | |
|---|---|
| Tudalen lawn | = £42 |
| Hanner tudalen | = £21 |
| Dwy golofn ½tud | = £14 |
| ¼ colofn | = £ 3.50 |
| Hysbysebion llai | = £ 2.00 |

Os bydd rhaid i ni wneud y logo (print bras) codir £2 yn ychwanegol. Gellir hysbysebu manion i'w gwerthu, gwasanaethau ac ati am £2 yn unig. Trwy wneud hyn, byddwch yn helpu'r Dinesydd a chi eich hunain ar yr un pryd.

O dudalen 8


gêm yn erbyn Wells United ond, wedi'r cwbl, mae'r tîm hwn ar frig yr Adran.

Ymlaen felly i 1981 gyda hyder a hwyl heb anghofio'r pêldroed wrth gwrs. Ymarfer fel arfer bob nos Fercher yn Ysgol Cantonian, Y Tyllgoed, o 6.30 p.m. tan 8.00 p.m. Croeso i bawb yn hen ac yn hŷn!

O.N. Diolch i Cen Cartŵn am drefnu cwis yng Nghlwb Morgannwg Ganol Heol y Porth yn ystod mis Rhagfyr. Siomedig oedd y nifer a oedd yn bresennol ond nid amharodd ar firi a mwynhad y noson.

Rhodri Gwyn Jones.

Gol: Mae'n braf clywed fod yr adroddiadau uchod yn ysbrydoli timau'r Cymric.



# Cystadleuaeth Clawr PAIS

**Gan ein bod yn gobeithio cael clawr lliw llawn ar PAIS yn rheolaidd o fis Rhagfyr ymlaen, y mis hwn 'r ydym yn gwahodd ffotograffwyr dros Gymru gyfan i anfon lluniau lliw i ni o ferched dela'u hardaloedd. Bydd angen o leiaf tri llun o bob merch – pob un ychydig bach yn wahanol ond heb fod yn rhy wahanol i'w gilydd – a'r rheiny'n lluniau tryloyw** *(transparencies)* **o faint 35mm o leiaf, er gorau po fwyaf fydd maint y lluniau ar gyfer cael eu chwyddo wedyn. Byddwn yn edrych am luniau gyda thipyn bach o ddychymyg y tu ôl iddyn nhw – ond heb fynd dros ben llestri!!**

Y WOBR GYNTAF YW £50

*. . .a chael dangos y llun ar glawr PAIS wrth gwrs. Byddwn hefyd yn defnyddio rhai o'r lluniau eraill a anfonir i mewn ac yn talu am y rheiny yn ôl ein telerau arferol am lun y clawr. Bydd y ffotograffwyr yn cael cadw'r hawlfraint ar y lluniau ar ôl i ni eu defnyddio yn PAIS.*

*Er mwyn rhoi digon o amser i bawb, 'r ydym wedi penderfynu mai Mawrth 1 fydd dyddiad cau y gystadleuaeth, er bod croeso i chi ddechrau anfon lluniau i mewn o'r mis hwn ymlaen. Gobeithiwn y bydd camerâu'n clicio ym mhobman dros Gymru yn ystod y pedwar mis nesaf, felly, ac edrychwn ymlaen am gael gweld y canlyniadau.*

**Anfonwch eich lluniau, ynghyd â phwt bychan am y merched sydd ynddynt, i: CYSTADLEUAETH CLAWR PAIS, CYHOEDDIADAU MEI, 40 STRYD Y WYDDFA, PENYGROES, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 6NG, erbyn Mawrth y cyntaf.**

## Y CALENDR


Chwefror 13: Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd. Tecwyn Ifan. Bar Seler y Great Western, 7.30 p.m. Estyniad bar tan 11.45 p.m.

Chwefror 27: (i'w chadarnhau) Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd. Cilmeri. Bar Seler y Great Western. 7.30 p.m. Estyniad bar tan 11.45 p.m.

Mawrth 13: (i'w chadarnhau) Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd. Ar Log. Bar Seler y Great Western. 7.30 p.m. Estyniad bar tan 11.45 p.m.

Os ydych am docynnau ar gyfer y tri pherfformiad uchod, ffoniwch yr Ysgrifennydd, Nic ap Glyn, 497414

Tan 31 Mai: Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru, Heol Bute, Caerdydd. Arddangosfa. Darlunir hanes cymoedd y Rhondda o'r cyfnod cyn-ddiwydiannol tan ein dyddiau ni.




# SIOP JEN

## 91, Stryd Pontcanna,

## CAERDYDD

## FFÔN 42933

## GWLÂN, DILLAD

## A NWYDDAU PREN



Y COLEG NORMAL, BANGOR

Prifathro Dr. J.A. Davies, M.A., B.Sc.

Crefft, Cynllunio a Thechnoleg

Mae prinder difrifol o athrawon i lenwi swyddi yng ngweithdai Adrannau Crefft a Chynllunio ein hysgolion. Beth am ddod i'r Coleg Normal i'r Adran Gynllunio Crefft a Thechnoleg i ddilyn un o'r cyrsiau canlynol.

DIPLOMA ADDYSG UWCH
(Cwrs dwy flynedd)

Mae'r cwrs hwn yn arwain i:
B.Add. un flwyddyn
B.Add.(Anrhydedd) dwy flynedd

DIPLOMA ADDYSG UWCH
(Cwrs terfynol)

CWRS I RADDEDIGION
(un flwyddyn) a all gynnwys agweddau ar Grefft, Cynllunio a Thechnoleg.


Amodau mynediad:
Dau bwnc safon 'A'
Rhoddir ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr hŷn (23+).

Os am fwy o fanylion neu gyfle i drafod y posibiliadau cysyllter â Swyddog Mynediad, Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd. LL57 2HQ. Tel. (0248) 52121.




Cwmni Teatr Penn ar Bed

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn  Rhif 10





## I Lawr

1. Conwy, Caerffili neu Carreg Cennen (3,6)
2. "Wrth aros Godot"? (6)
3. Griddfan oni cha ddiwygiad (5)
4. Y blynyddoedd hyn. (3,5)
5. Lluniwr y croesair mewn twll, a Paul McCartney neu un o'r lleill yn ei wared. (6)
6. Digwyddiad sy'n ysgwyd dyn ar gae'r byd. (9)
7. Yn y gorffennol daeth yn agosach. (7)
8. Mae'r "dysgwr" yn ennill gwybodaeth ac yn cael cwpan (5)
14. A ydych wedi talu? Siwr iawn, ond 'does neb wedi derbyn. (9)
16. Y neb sydd ganddo olygon (9)
17. Mae'n cael ei greu gan blentyn, ond byr yw ei oes(1,3,4)
19. Mae siarad plaen gyda hyn(2,5)
21. Dod yn ddibynnol a wnaeth y trydydd personau (7)
22. Trwsio pibellau yn y dyfnderoedd (6)
23. Ffordd o ddweud. (5)
24. O Taid! (Mae ef yn ffoli'n wirion) (5)

## Ar Draws

1. Llyncwr camel yn gwylied byd hon mewn penbleth ac yn gwneud hyn. (5,8)
9. Fe gymer wsnoth i Adda i gyfarch ei gydnabod. (7,2)
10. Mae hwn yn barod mewn rhannau o'r wlad (5)
11. Mae'r Awen yn troi nwyf a chreadur yn ateb. (5)
12. Mae i Roeg bum deg haul, ac eto mae'r dryswch yn esboniadwy (9)
13. Diddanwch i daid trwsgl sy'n dilyn Groeg o bell. (8)
15. Lleddir yn dawel a'i osod yn y gweryd o chwith. (6)
18. Mynd ar gerdded mae arf fwyta'r gymdogaeth. (6)
20. Mae'r dychweledigion wedi dod i'r cyflwr hwn. (8)
23. Dyma'r pryd i ddechrau pob cyfarfod. (2,7)
24. Mae drygsawr o gwmpas. (5)
25. Mae gennych achos i gwyno ar fydd rhan o'r ardd dan laswellt a chwyn. (5)
26. Cael y trechaf wrth roi sêl tîm anystywallt ar waith. (9)
27. Pawb ond y moelion? (3,4,6)

## DATRYSIAD CROESAIR RHIF 9.

### Ar Draws

1. DYNWAREDIAD (dyn da wedi ar-) 9. IRAID (Mein-IR A'I Dwy); 10. ABSENOLDEB (Leo N. Abse B.D.) 11. EGLUR; 12. ANHYLAW; 14. RAN; 15. BUDR; 16. O DY I DY; 17. TARW; 21. LOES; 22. ATHRODI (o'i darth); 23. GWAG; 26. BYS; 27. EHEDIAD; 29. ACERI (Caeir); 30. DAFADENNOG ("Paint me, warts and all"); 31. AWYRO; 32. GWINLLANNOEDD (Egin llawn ddon').

### I Lawr

2. Y FARN; 3. ADEILADOL; 4. ETHOLWR; 5. IRDER MAI; 6.DIBEN; 7. BAGLAU; 8. ADARGRAFFIAD (Ar Dad a Griff a...); 12.ADOLYGIADAU; 13. HWYL; 18. WRTH DENNYN; DEISYFAI (Dai ei fys); 20.MOLI; 24. ADERYN; 25.(C)EUDW(LL); 26. BIDOG; 28. ASGRE.

## Y CALENDR

Tan Chwefror 28: Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd. David Jones 1895-1974. Arddangosfa. Yr oedd yr artist hwn yn eithriadol o falch o'i gefndir Cymreig a gwelir dylanwad golygfeydd a chwedlau Cymru yn drwm ar ei waith. Ffynonellau cyfoethog eraill ei ysbrydoliaeth artistig oedd ei ffydd Gatholig a'i brofiadau ysgytwol fel milwr yn y Rhyfel Mawr.

Mawrth 2: Merched y Wawr,Caerdydd. Festri Minny St.,Cathays am 7.30 p.m. Dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r dysgwyr.

Ebrill 5: Theatr y Sherman. 8 p.m. yn y Brif Theatr, Cyngerdd Ysgol Gymraeg Rhydfelen. Noson amrywiol o ddrama a chân. Pris: £1.80.

Ebrill 6: Merched y Wawr,Caerdydd. Festri Minny St.,Cathays am 7.30 p.m. 'Barddota' yng nghwmni canghennau'r Barri a Gwaelod y Garth. Cadeirydd: Mr. Islwyn Jones.

Ebrill 23-25: Theatr y Sherman. Am 8 p.m. yn yr Arena. 'Yr Opera Pisyn Tair' - cyfieithiad Emyr Edwards o opera enwog Brecht. Cwmni Theatr yr Urdd. Pris: £1.50.

Mehefin 27: Ffair Haf, Ysgol Glantaf, 2.30 p.m.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.